

Siarter Uniondeb Academaidd i sector addysg uwch y DU



Cyflwyniad


Mae gan sector addysg uwch y Deyrnas Unedig enw da drwy'r byd i gyd oherwydd ei safonau uchel a'i ansawdd rhagorol. Mae uniondeb academaidd yn cyfrannu'n fawr at hynny. Fodd bynnag, mae camymddwyn academaidd yn dod yn broblem gynyddol drwy'r byd i gyd, ac mae'n fygythiad i enw da'r sector addysg uwch ledled y byd. Daw mewn amrywiaeth eang o ffurfiau sy'n cynnwys defnyddio melinau traethodau a graddau, llên-ladrad, cyd-dwylo rhwng myfyrwyr a ffugio neu addasu tystysgrifau cymwysterau. Mae'r Siarter hon yn cynrychioli ymrwymiad sector addysg uwch cyfan y DU i hybu uniondeb academaidd ac i fynd i'r afael â chamymddwyn academaidd.

Mae myfyrwyr sy'n camymddwyn yn academaidd, yn enwedig os byddan nhw'n twyllo'n fwriadol, yn peryglu eu gyrfaoedd academaidd a'u gyrfaoedd pellach yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r goblygiadau'n mynd ymhell y tu hwnt i'r sector addysg uwch. Mae hon yn broblem i'n cymdeithas gyfan. Gallai graddedigion ymuno â'r gweithlu heb y sgiliau, yr wybodaeth a'r cymhwysedd sy'n angenrheidiol, a gallai hynny gael effaith ar iechyd a diogelwch y cyhoedd.

Pwrpas y Siarter hon yw darparu sylfaen y gall darparwyr yn y DU, fel sefydliadau ymreolaethol, adeiladu eu polisiau a'u harferion eu hunain arni er mwyn sicrhau fod cymhwyster pob myfyrwr yn ddilys, yn wiriadwy ac yn derbyn parch. Datblygwyd y Siarter gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) gyda chefnogaeth y [Grŵp Cyngori ar Uniondeb Academaidd](#).

Mae'r Grŵp Cyngori ar Uniondeb Academaidd yn rhoi cyngor a barn arbenigol, ar ran y sector, ynglŷn â chymryd camau a datblygu a gweithredu polisiau i ddiogelu uniondeb academaidd yn y DU. Mae'n cynnwys sefydliadau ac academyddion arbenigol, asiantaethau'r sector, cynrychiolwyr myfyrwyr ac unigolion sy'n gweithio i ddiogelu uniondeb academaidd. Mae cynrychiolwyr y llywodraethau a'r cyrff rheoleiddio a chyllido yn y DU yn gweithredu fel arsylwyr.

Yr egwyddorion sicrhau uniondeb academaidd



Mae camymddwyn academaidd yn annerbyniol.

Pwrpas yr egwyddorion hyn yw arwain y gwaith o ddatblygu polisiau a gweithredu arferion i sicrhau uniondeb academaidd mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU.

Egwyddor 1: Mae gan bawb yn y gymuned gyfan gyfrifoldeb

Mae pob aelod o gymuned darparwr addysg uwch yn gyfrifol am sicrhau bod uniondeb academaidd wedi'i ymwreiddio a'i weithredu bob amser.

Egwyddor 2: Dull sy'n cynnwys y gymuned gyfan

Mae nifer o wahanol fathau o gamymddwyn academaidd a gall ddigwydd am nifer o wahanol resymau, yn fwriadol neu'n anfwriadol. Felly, nid yw'n bosibl cael un ymateb cyffredinol sy'n addas ar gyfer pob darparwr addysg uwch. Mae'n bwysig canfod a chosbi'r camymddygiad, ond nid dyma'r ateb cyfan.

Bydd dull cyfannol gan ddarparwr addysg uwch, sy'n cynnwys y gymuned gyfan gan gynnwys ei myfyrwyr, yn fodel effeithiol ar gyfer hybu ymddiriedaeth a hyder mewn dysgu annibynnol ac atal camymddwyn academaidd.

Yn aml iawn, mae dull fel yma'n cyfuno elfennau o'r canlynol: addysgu a chefnogi staff a myfyrwyr; cyfyngu ar gyfleoedd i gyflawni camymddygiad academaidd; gweithredu dulliau i ddarganfod camymddwyn drwy'r sefydliad cyfan; llunio adroddiadau am achosion a chasglu data i wella arferion; a nodi'n glir beth yw gwerthoedd y sefydliad.

Egwyddor 3: Gweithio gyda'n gilydd fel sector

Mae camymddwyn academaidd yn broblem sy'n gallu effeithio ar uniondeb pob darparwr addysg uwch a chael effaith ddifrifol ar enw da'r sector addysg uwch cyfan yn y DU.

Gall cydweithrediad ar draws y sector fynd i'r afael â hynny, drwy ddulliau megis rhannu arferion gorau, cydweithio ar waith meincnodi neu weithio ynghyd i ymdrin â materion sydd o ddiddordeb cyffredin - megis rhannu gwybodaeth am felinau traethodau neu raddau sy'n targedu eu myfyrwyr neu eu staff. Trwy gyfuno gwybodaeth, profiad ac adnoddau, gellir cynnal a chryfhau uniondeb academaidd y sector cyfan yn y DU.

Egwyddor 4: Ennyn diddordeb y myfyrwyr a'u grymuso

Gall darparwyr addysg uwch gefnogi eu myfyrwyr drwy sicrhau bod cyfle rhesymol a pharhaus iddyn nhw ddysgu am eu polisiau a'u prosesau mewn ffordd hygyrch a thrwy amrywiaeth o ddulliau (er enghraifft, llawlyfrau, sesiynau cynefino ar gyfer cyrsiau, deunyddiau cyflwyno, addysgu).

Mae'r myfyrwyr yn gyfrifol am uniondeb eu dysgu eu hunain, a'u penderfyniadau nhw eu hunain yn y pen draw yw torri codau ymddygiad academaidd (er enghraifft, drwy ddefnyddio melin traethodau). Fodd bynnag, gall darparwyr weithio i sicrhau bod eu myfyrwyr yn derbyn cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl am uniondeb academaidd a chanlyniadau posibl camymddwyn - gan gynnwys yr effaith ar eu gyrfaeod yn y dyfodol - a'u bod yn derbyn cymorth i ddatblygu'r uniondeb academaidd hwnnw.

Gall staff addysgu ac aelodau eraill o'r staff rheng flaen osod esiampl drwy weithredu egwyddorion uniondeb academaidd a thrwy arddangos ymddygiad academaidd derbynol; maen nhw'n cynnwys ac yn ymgysylltu'n weithredol â myfyrwyr a chyrrff cynrychioli myfyrwyr yn y materion hyn er mwyn cefnogi eu datblygiad. Gall y darparwyr ystyried ym mha ffyrdd y gellid adnabod a chefnogi 'hyrwyddwyr' uniondeb academaidd o blith y myfyrwyr.



Egwyddor 5: Grymuso ac ymgysylltu â staff

Mae gan staff proffesiynol a staff addysgu rheng flaen rôl hanfodol i'w chwarae o ran atal a chanfod achosion o gamymddwyn academaidd gan fyfyrwyr. Gall darparwyr addysg uwch ystyried sut y gellir rhoi rolau a chydabyddiaeth ffurfiol i aelodau o'r staff academaidd i hyrwyddo uniondeb academaidd ymysg y staff.

Gall y darparwyr gyfathrebu eu polisiau sicrhau uniondeb academaidd yn rhagweithiol i'r staff a datblygu fframwaith sy'n disgrifio'r prosesau y mae angen eu dilyn pan ganfyddir achosion o gamymddwyn.

Gellir sicrhau bod cyfryngau ac adnoddau i ganfod ac atal camymddwyn ar gael i'r staff addysgu a staff y gwasanaethau proffesiynol. Byddai'r rhain yn cynnwys arferion gorau mewn cynllunio, darparu ac asesu cyrsiau ynghyd â dulliau o wirio ceisiadau myfyrwyr a'r dechnoleg gysylltiedig. Gallai hynny gynnwys darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff.


Egwyddor 6: Polisiau ac arferion sefydliadol sy'n gyson ac yn effeithiol

Gall darparwyr addysg uwch ddiffinio'n eglur beth maen nhw'n ei ystyried yn uniondeb academaidd, a chynnal a chadw cyfres o bolisiau ac arferion sicrhau uniondeb academaidd sy'n:

- canolbwyntio ar gamau a gweithgareddau i addysgu ynghyd ag atal camymddwyn
- defnyddio termau a diffiniadau sy'n glir ac yn gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o gamymddwyn academaidd drwy ddefnyddio esiamplau y gall myfyrwyr eu deall
- gosod yn eglur y lefel briodol a chymesur o gosbau neu gymorth datblygiadol ar gyfer gwahanol fathau o gamymddwyn academaidd
- nodi prosesau sy'n glir, yn deg ac yn hawdd eu dilyn ar gyfer ymchwilio ac asesu achosion posibl o gamymddwyn academaidd
- cael eu hadolygu'n gyfnodol, a gall hynny gynnwys adolygu'r ymlyniad â'r ymrwymadau sydd wedi'u nodi yn y Siarter hon.

Egwyddor 7: Ymreolaeth sefydliadol

Fel sefydliadau ymreolaethol, darparwyr addysg uwch y DU yw'r llinell amddiffyn gyntaf yn erbyn unrhyw gamymddwyn academaidd. Maent yn gyfrifol am gynnal a hybu ansawdd ac uniondeb eu darpariaeth eu hunain a sicrhau safonau academaidd y dyfarniadau a gynigiant. Trwy wneud hynny, maent yn diogelu eu henw da. Maen nhw yn y sefyllfa orau i roi'r cyfryngau a'r gefnogaeth angenrheidiol i'w myfyrwyr i hybu ymddiriedaeth a hyder mewn dysgu annibynnol ac i osgoi camymddwyn academaidd.



Yr adduned



Mae QAA a Grŵp Cyngori ar Uniondeb Academaidd y DU yn gwahodd prifysgolion a cholegau yn y DU i lofnodi'r Siarter yn ystod blwyddyn academaidd 2020-21.

Mae llofnodi'r Siarter yn cynrychioli adduned sefydliadol i weithredu ei hegwyddorion a'i hymrwymiaadau sy'n cynnwys gweithio gyda staff a myfyrwyr ac, mewn cydweithrediad ar draws y sector, i ddiogelu a hybu uniondeb academaidd, ac i fynd i'r afael â chamymddwyn academaidd.

I gofrestru, ewch i'r dudalen [Siarter Uniondeb Academaidd](#) ar ein gwefan. Caiff y darparwyr a'r cyrff sy'n lofnodi'r Siarter eu rhestru ar y dudalen honno.

Trwy ddarparu gwasanaethau i'n haelodau, mae QAA yn addunedu i gynnig hyfforddiant, arweiniad a chefnogaeth i staff a myfyrwyr mewn sefydliadau, gan gynnwys drwy rannu arferion o'r DU a thramor. Erbyn diwedd 2021, byddwn yn rhoi adroddiad am arferion sy'n datblygu yn y sector, gan gynnwys y ffordd y mae sefydliadau wedi defnyddio'r Siarter hon.

Aelodau allanol Grŵp Cyngori ar Uniondeb Academaidd y DU Hydref 2020

Alex Bols (GuildHE)

Helen Butcher (Prifysgol Glasgow)

Charlotte Corrish (Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol)

Dr Robin Crockett (Prifysgol Northampton)

Yr Athro Michael Draper (Prifysgol Abertawe)

Dr Irene Glendinning (Prifysgol Coventry)

Emmanuel Haruna (Pwyllgor Myfyrwyr i Gyngori ar Strategaeth QAA)

Dr Thomas Lancaster (Coleg Imperial Llundain)

Yr Athro Tim McIntyre-Bhatty (Prifysgol Bournemouth)

Dr Mike Reddy (Prifysgol De Cymru)

Alan Palmer (MillionPlus)

Gill Rowell (Turnitin)

Jayne Rowley (Jisc - Prospects a HEDD)

Helen Smallbone (Prifysgol Edge Hill)

Charlotte Snelling (Prifysgolion y DU)

Yr Arglwydd Storey (Tŷ'r Arglwyddi)

Cydnabyddiaethau

Mae QAA a Grŵp Cyngori ar Uniondeb Academaidd y DU yn ddiolchgar iawn i Brifysgolion Awstralia am fynd ati'n garedig iawn i rannu eu cyhoeddiad [Academic Integrity Best Practice Principles](#) [egwyddorion arfer gorau mewn sicrhau uniondeb academaidd] (Tachwedd 2017) sydd wedi ein helpu ac wedi dylanwadu ar ddatblygiad y Siarter hon.

Datblygwyd y Siarter hon gan gyfeirio'n agos at [God Ansawdd Addysg Uwch y DU](#) - sef gwarantwr ansawdd a safonau ym maes addysg uwch y DU sy'n diogelu buddiannau'r myfyrwyr a'r cyhoedd. Mae'r Cod Ansawdd yn rhoi Cyngor a Chyfarwyddyd ar nifer o themâu i gefnogi darparwyr newydd a sefydledig i fodloni'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sy'n rhan ohono. Mae ei adran [Cyngor a Chyfarwyddyd: Aseidiadau](#) yn cynnwys egwyddor i dywys y gwaith o sicrhau uniondeb academaidd. Mae'r Siarter hefyd yn defnyddio gwybodaeth o'r ddogfen Cyngor a Chyfarwyddyd ar Dwyll Graddau i ddarparwyr addysg uwch, a ddatblygwyd gan wasanaeth gwirio Hedd y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (Jisc) i fynd i'r afael â thwyll cymwysterau.

Mae cyhoeddiad QAA - [Contracting to Cheat in Higher Education: How to Address Essay Mills and Contract Cheating](#) [contractio i dwyllo: sut i fynd i'r afael â melinau traethodau a thwyll contract] (yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd) - yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd i helpu darparwyr addysg uwch i ddatblygu eu hymateb sefydliadol i dwyll contract a dangos eu hymrwymiad i'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn y Siarter hon.

Cydnabyddiaeth arbennig

Wrth gyhoeddi'r siarter hon, hoffem hefyd gydnabod y gwaith a wnaed gan rai sydd wedi marw yn anffodus ond a oedd yn hoelion wyth yn y maes uniondeb academaidd. Bu'r Athro Tracey Bretag a Robert Clarke yn haelionus yn eu gwaith o hybu ymwybyddiaeth ynghylch uniondeb academaidd, ac o arwain ymdrechion ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol i fynd i'r afael â chamymddwyn academaidd.